PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 41 Hydref 12, 2023 50c.

## HANES BRWYDR Y PRESELAU YNG NGHWRDD CHWARTER BWLCH-Y-CORN

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd gyda'r hwyr yng nghapel gwledig Bwlch-y-corn ger Caerfyrddin ar ddydd Iau, 14 Medi i glywed y siaradwr gwadd, Hefin Wyn o Faenclochog, yn sôn am hanes cyffrous 'Brwydr y Preselau'. Fe wnaeth Rhiannon Mathias, cadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin, ei gyflwyno fel mab y mans, newyddiadurwr, awdur, golygydd papur bro *Clebran*, ac un â chanddo ddiddordeb byw yn hanes Sir Benfro.



### Gweinidogion yn arwain

Yn Nhachwedd 1946 aeth swae ar led bod y fyddin am feddiannu mynyddoedd y Preselau yn Sir Benfro fel maes ymarfer anferth i danciau rhyfel a throi Maenclochog, i bob pwrpas, yn bentre gariswn, meddai Hefin. Aed ati yn fuan iawn i sefydlu Pwyllgor Diogelu'r Preselau, ardal Gymraeg sy'n frith o olion cynhanesyddol pwysig. Bu nifer o bobl yn weithgar iawn, gan gynnwys Caleb Rees a fagwyd yn Sir Benfro, dyn llengar a doeth, cyn-arolygydd ysgolion, o linach Twm Carnabwth sef un o arweinwyr Merched Beca; y Parchgn Llewelyn Lloyd Jones, a adnabuwyd fel Monwysyn, a oedd yn weinidog yn y cylch ar y pryd; Moelwyn Daniel; ac R. Parry Roberts. Hefyd yn gysylltiedig oedd y Parchg S. B. Jones, a fu'n weinidog ym Mwlch-y-corn a Pheniel (gweler y llun).



### Magu eneidiau

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd i sôn am ddiogelu'r Preselau, gyda nifer yn siarad ynddynt. Adroddodd Hefin hanesyn am 'Parry bach,' sef y Parchg R. Parry Roberts, Monwysyn, a 'Jo,' y Parchg Joseph James, brodor o Ddowlais, ffrindiau mynwesol, yn cwrdd â dau swyddog o'r fyddin ar y Preselau. Wrth i'r swyddogion ddatgelu beth roeddent am wneud gan nad oedd llawer o werth i'r mynyddoedd hyn, yn eu tyb hwy, dim ond i fagu defaid, dyma Parry Roberts yn gweddïo yn hir cyn i Joseph James wneud yr un peth ar ei ôl. Yna dyma Parry Roberts yn dweud mai 'magu eneidia' wnawn ni ffor' hyn.' Lloriwyd y swyddogion gan feddwl ei bod wedi cwrdd â dau ynfytyn. Ond trwy hyn llwyddwyd i gadw'r tir. Er mai dynion dŵad oedd y gweinidogion hyn, roeddent yn adnabod yr ardal yn dda, a buont yn flaenllaw iawn yn y frwydr i achub y Preselau.

Dangosodd Hefin nifer o luniau o'r ardal i fynd law yn llaw â'i sylwadau, gan gynnwys rhai o'r daith gerdded flynyddol dros y bryniau i gofio llwyddiant yr ymgyrch i rwystro troi'r Preselau yn faes ymarfer milwrol, fel a ddigwyddodd ar Fynydd yr Epynt.

*parhad ar dudalen 2*




Drama un-ferch am fywyd Annie Jane Hughes Griffiths, un o bedair menyw a aeth â deiseb o bron i 400,000 o enwau merched Cymru i America yn 1924 yn galw am heddwch rhyngwladol.

Dyma ddrama sy'n llawn angerdd, delfrydiaeth a gobaith. (Addas i oedolion a disgyblion blwyddyn 10+)

**YR EGIN, CAERFYRDDIN**

**18 HYDREF 7.30 • £8 - £12**

Archebwch eich tocyn: yregin.cymru/cy/event

Cewch glywed yr hanes hefyd mewn sgwrs rhwng yr hanesydd Catrin Stevens a Joan Thomas, Cadeirydd Cymdeithas Hanes yr Undeb ar wefan Undeb yr Annibynwyr: www.annibynwyr.org/cy/blog/post/y-ddeiseb-heddwch1

Mae'r ddrama ar daith drwy Gymru. Ewch i wefan Mewn Cymeriad i wybod mwy.

## MEIRWEN YN DATHLU'R CANFED!



Ar ran ein gweinidog, y Parchg Dylan Rhys Parry, ac aelodau eglwys y Tabernacl Porthcawl carwn anfon ein dymuniadau gorau i Mrs Meirwen Jones ddathlodd ei phen-blwydd yn gant oed ar ddydd Sul 24 Medi. Diwrnod i'r teulu oedd y Sul, ond pleser o'r mwyaf oedd ymuno gyda chymdogion a ffrindiau bnawn drannoeth i ddymuno'n dda iddi.

Ganwyd Meirwen ym Mhont Rhyd-y-Cyff, ger Maesteg. Cyn ymddeol roedd yn bennaeth ysgol feithrin Trowbridge yng Nghaerdydd. Wedi symud i Borthcawl ymaelododd yn y Tabernacl a bu'n aelod hynod ffyddlon dros y blynyddoedd. Cefnogodd bopeth Cymraeg yn yr ardal, bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Cymry Porthcawl, yn gyd-olygydd ein papur bro, *Yr Hogwr*, yn aelod gweithgar o Ferched y Wawr, ac ymddiddorodd yng ngweithgareddau Prifysgol y Drydedd Oes.

Llongyfarchiadau mawr iddi ar gyrraedd y garreg filltir arbennig yma a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

**Tom Price** (Ysgrifennydd)

# CWRDD CHWARTER BWLCH-Y-CORN - *parhad*

### Cyfarfod y Prynhawn

Fe wnaeth Rhiannon Mathias groesawu pawb gan sôn yn arbennig am Karen Owen sydd wedi dod i'n plith am bedwar mis i gael profiad yn eglwysi Tre-lech, Ffynnonbedr, Pen-y-bont, Capel Cendy, a Bwlchnewydd fel rhan o'i chwrs i fynd i'r weinidogaeth. Darllenodd Delyth John o'r Beibl a gweddïodd Alun Jones yn y ddau gyfarfod, gyda Delyth hefyd yn cyfeilio yn y ddau. Dorian Williams, trysorydd Bwlch-y-corn, wnaeth estyn croeso'r eglwys, ac fe ddosbarthwyd taflen with tudalen a baratowyd gan Alun Lenny yn olrhain hanes bras yr achos a'r capel ers ei godi yn 1847, gyda lluniau o'r ddau gwrdd chwarter diweddaraf i'w cynnal yno.

### Mudiad Ieuenctid Cristnogol

Mae MIC yn dal i chwilio am weithiwr rhan-amser i gydweithio gydag eglwysi ac ysgolion Sul yn Sir Gâr. Cynhaliwyd noson bowlio i ysgolion Sul y Cyfundeb ym mis Medi a chynhelir *Joio gyda Iesu* ym Mheniel ar 5 Tachwedd am 2pm.

### Masnach Deg

Cyfarfu Pwyllgor Sir Gâr yn ddiweddar. Anogir pawb i brynu nwyddau Masnach Deg, a gofyn i'r archfarchnadoedd gadw'r nwyddau hyn, gan fod eu stoc yn lleihau. Mae'r Co-op yn cyhoeddi cystadleuaeth gelf i blant, i greu llun neu boster ar y thema 'Nadolig tecach i bawb' gyda'r dyddiad cau ddechrau Tachwedd. Bydd angen tynnu sylw ysgolion Sul at hyn.

### Pwyllgor Cenhadol

Achlysur pwysig oedd ymweliad y Parchg Carwyn Siddall, a benodwyd yn Gydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau gan yr Undeb. Mewn cyfarfod yn Heol Awst, a hysbysebwyd yn eang gan y Pwyllgor Cenhadol, bu Carwyn yn sôn am y cymorth sydd ar gael o ran ystod eang o hyfforddiant i helpu'r eglwysi. Ychwanegwyd bod Guto Prys ap Gwynfor ar fin dechrau cyfres o sesiynau yn festri Heol Awst ar Hanes yr Eglwys, ac estynnir croeso i unrhyw un fynychu. Dywedodd ef fod angen rhoi sylw i'r Eglwys Fore, oherwydd roedd y cenedlaethau cyntaf yn ymateb i'r hyn a ddywedodd Iesu, ac yr oeddynt mewn byd paganaidd, a dyna ein sefyllfa ni heddiw. Cytunwyd ei bod yn gyfrifoldeb arnom i gynorthwyo eglwysi gwan, a gweithio gyda'n gilydd.

Gofynnwyd (i) a fyddai modd i'r Pwyllgorau Bugeiliol a Chenhadol drafod a allai eglwysi sydd yn cau drosglwyddo arian i'r Cyfundeb fel bod cronfa ar gael ar gyfer rhoi grantiau i eglwysi gwan a (ii) a allai'r Cyfundeb gael cymhorthdal i dalu person i geisio'n helpu ni i ymestyn mas atynt hwy. Cytunwyd i ymchwilio i'r posibilrwydd. Nodwyd hefyd bod rhai ysgrifenyddion ddim ar dân dros y gwaith, ac felly does dim yn digwydd yn eu heglwysi.

### Apêl Ffynhonnau Byw yr Undeb

Cafodd pob ysgrifennydd wybodaeth am apêl fawr yr undeb. Jean Lewis yw'r cyswllt rhwng yr Undeb a'r Cyfundeb, a rhwng y Cyfundeb a'r eglwysi. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Gwaith drafod beth all y Cyfundeb ei wneud i godi arian, yn ogystal â'r eglwysi. Ni anfonir pecynnau i'r eglwysi eleni fel yr arferid ei wneud, gan fod y cyfan bellach yn ddigidol.

### Rhaglen Arloesi a Buddsoddi

Rhoddwyd hanes yr hyn sy'n digwydd yn eglwysi Bryn Iwan, Bethlehem Newydd a'r Priordy gyda nawdd o'r rhaglen. Ym Mryn Iwan addaswyd y capel a'r festri ar gyfer yr anabl, i fod yn addas at ddefnydd y gymuned a chenhadu. Ym Methlehem Newydd penodwyd swyddog cymunedol, er mwyn trefnu helpu yn y gymuned. Denwyd gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda helpu'r lloches i wragedd, Plant Dewi (y trosglwyddwyd y festri iddynt ar gyfer eu cynllun Bwndel Babi), parhau i gefnogi Banc Bwyd Hendy-gwyn trwy fod pobl yn rhoi un eitem o fwyd ar y tro. Cynhaliwyd arddangosfa liwgar yn ystod yr haf – 'Bethlehem Newydd ddoe, heddiw ac yfory', a lluniau 3D o sut fydd y capel yn edrych pan fydd y gwaith o

Arloesi a Buddsoddi
Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

addasu wedi'i orffen. Gweithgareddau digidol yw cynllun y Priordy, gan gynnwys oedfa ddigidol wythnosol ar YouTube sy'n denu cannoedd o wylwyr yn lleol ac ar draws y byd.

### Gŵyl y Sul Sbesial

Cafwyd achlysur llwyddiannus iawn yn Yr Egin S4C ym mis Gorffennaf, gyda Carys Davies, Peniel, a rhai o'r mamau yn darparu gweithgaredd i'r plant, a Catrin Stevens yn annerch yr ieuenctid a'r oedolion ar 'Heddwch Nain/Mam-gu' a'r ddeiseb o 400,000 o enwau merched Cymru yn 1924 gyda chymorth delweddau ar y sgrin anferth.

### Cwrdd Chwarter nesa

Bryn Iwan, dydd Iau, 23 Tachwedd am 10.30am ac 1.30pm pan fydd Oedfa Gymun ac anerchiad gan gadeirydd newydd y Cyfundeb, y Parchg Guto Prys ap Gwynfor.

Ar ddiwedd y cyfarfod hwyrol, fe ddiolchodd Anne Loughran am lwyddiant y dydd – i aelodau'r eglwys am eu croeso a'r lluniaeth; y rhai a gymrodd ran yn y cyfarfodydd ac i Hefin Wyn am ei gyflwyniad ardderchog. Cyflwynodd Rhiannon Mathias y Fendith i orffen.

Adroddiad yn seiliedig ar nodiadau
Joan Thomas – Cofnodydd



Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 12 2023 RHIF 137

# Cyflwyno Medalau Gee yn yr Allt-wen

Yn un o'i ganeuon mae Huw Chiswell, wrth deithio i fyny Cwmtawe a dod i ymyl y Graig arw a gweld Capel Panteg, ger Ystalyfera, yn mynegi ei ddyled i'r capel lle cafodd ei fagwraeth. Meddai yn y gân, 'Ces fy magu yn y capel ac ar Air yr Ysgol Sul', ac mae pawb ohonom sydd yma heddiw yn ddyledus i ddylanwad yr Ysgol Sul arnom.

Cawson gyfle ddydd Sadwrn, 30 Medi, i ymgynnull yng Nghapel yr Allt-wen i anrhydeddu pump o unigolion a roes gyfraniad sylweddol i fywyd eglwysi a'u hysgolion Sul. Daeth Aled Davies (Aled Ysgol Sul yn yr Orsedd) ar ran y Cyngor Ysgolion Sul atom i gyflwyno Medal Gee i Phyllis Bell o Nebo, Felindre, ger Abertawe; Nest Davies a Rhydwen James o gapel yr Allt-wen ac i Eiry Shopland o gapel Soar, Maes-yr-haf, Castell-nedd. Cyflwynwyd hefyd fedal arbennig i Sharon Rees (un o ferched yr Allt-wen) am ei gwasanaeth diflino ers 32 mlynedd yn gweithio'n genhadol yn Eglwys Llanfair, Pen-rhys.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Gareth Morgan Jones a'r organydd oedd Huw Rees. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Angharad Naylor, Beti Williams, Gareth Richards, a rannodd eu hatgofion am gyfraniad y medalwyr i'w heglwysi, cyn i ni gael ein harwain mewn gweddi gan y Parchedig Rhys Locke. Daeth y pump ymlaen yn eu tro i dderbyn y medalau, gyda Gareth a Rhys yn eu cyflwyno i'r gynulleidfa luosog yn y capel. Braf hefyd oedd clywed tystiolaeth rhai o'r medalwyr wrth iddynt ddiolch am yr anrhydedd a rhannu rhai atgofion am oes o wasanaeth yn yr ysgol Sul.

Yn dilyn y gwasanaeth cafodd llond festri fwyta o'r danteithion a baratowyd gan chwiorydd gweithgar yr Allt-wen, a phawb wedi mwynhau'r gymdeithas. Roedd yn sicr yn ddydd o lawen chwedl, a bu inni ddiweddu'r oedfa drwy ganu a dyheu gyda'r emynydd:







Air disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru heddiw,
tyrd, Ysbryd Glân, rho dy dân i ni:
rhed, afon gras,
taena gariad ar draws y gwledydd,
dyro dy air
a goleuni a fydd.

*Gareth Morgan Jones*

Aeth BBC Cymru Fyw ati i gyf-weld tri o'r medalwyr, a chawsant gyfle i rannu eu hatgofion a'u gobeithion am y dyfodol. Mae modd darllen yr erthygl honno drwy glicio YMA.

Mae pedwar cyfarfod arall wedi eu trefnu hefyd, ar hyd a lled Cymru, er mwyn cyflwyno gweddill y medalau dros yr wythnosau nesaf.
(Gol.)

# Cynhadledd DARE CWM, Bangkok, Medi 2023




Partneriaeth fyd-eang o 32 o eglwysi, gan gynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru yw'r Cyngor Cenhadaeth Fyd-cang (Council for World Mission – CWM). Mae'r eglwysi sy'n aelodau o'r Cyngor 'wedi ymrwymo i rannu eu hadnoddau mewn arian, pobl, sgiliau, a syniadau yn fyd-eang er mwyn cyflawni cenhadaeth Duw yn lleol'.

Ffurfiwyd CWM yn swyddogol yn 1977, er bod ei wreiddiau'n dyddio'n ôl i 1795 pan sefydlwyd Cymdeithas Genhadol Llundain (LMS). Mae'n fudiad unigryw ac mae bod yn rhan ohono yn brofiad cyffrous, gan ei fod yn wir yn bartneriaeth o eglwysi o bob rhan o'r byd sy'n rhannu adnoddau ac yn cydweithio fel modd o gymryd rhan yng nghenhadaeth achubol Duw ar gyfer yr holl greadigaeth. Yn wir, ers ei sefydlu, mae CWM wedi ceisio ymateb i syniadau problemus am oruchafiaeth ddiwylliannol y Gorllewin sydd wedi effeithio'n gyson ar y mudiad cenhadol modern (h.y. datganiad cenhadol gwreiddiol yr LMS, 'to spread the knowledge of Christ *among heathen and other unenlightened nations*'). Mae prosiectau a rhaglenni CWM yn ceisio adlewyrchu'r newid mewn Cristnogaeth ledled y byd mewn cyfnod ôl-drefedigaethol. Yn y cyfnod hwn gwelwyd y Gogledd Global yn cael ei seciwlareiddio fwyfwy ac eglwysi'r De Global yn profi twf eithriadol.

Rydw i wedi cael y fraint o weithio gyda CWM ar brosiectau amrywiol ers 2019, gan gynnwys bod yn aelod o'r Grŵp Cyfeirio'r Rhaglen (Programme Reference Group), sy'n cynnig cefnogaeth a chyfeiriad i'w amrywiol brosiectau a rhaglenni, yn ogystal â throsolwg ohonynt. Rwyf hefyd yn cael fy ystyried yn un o'u 'hysgolheigion ifanc' gan imi dderbyn yn ddiolchgar ysgoloriaeth PhD gan CWM.

Dechreuodd fforwm Dirnadaeth ac Ymgysylltiad Radical (Discernment and Radical Engagement, DARE) CWM yn Ninas Mecsico yn 2018 fel llwyfan i ysgolheigion a gweithredwyr i fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n allweddol i'r cyfnod presennol. Mae fforymau DARE yn croesawu ac yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu â'r materion hynny mewn ffyrdd radical, creadigol a chyfiawn, ac i greu adnoddau a all lunio dyfodol addysg feiblaidd a diwinyddol.

Mae deg ar hugain o gyfrolau trawiadol o draethodau wedi'u casglu a'u cyhoeddi ers 2018, bron pob un ohonynt wedi dod allan o fforwm DARE. Y dull mwyaf cyffredin o ymgysylltu yn y cyd-destun hwn oedd drwy 'ddiwinyddiaeth rhyddhad'. Mae hon yn ffordd benodol o ymdrin â diwinyddiaeth a ddeilliodd o America Ladin yn y 1960au ac yn canolbwyntio ar 'ymarfer' (*praxis*) fel y rhyngweithio parhaus rhwng diwinyddiaeth ei hun a'r dull o'i rhoi ar waith, yn bennaf mewn cyd-destunau lle ceir gormes gwleidyddol a phobl wedi'u gwthio i'r cyrion.

Cefais y fraint o fynychu fforwm DARE eleni yn Bangkok, Gwlad Thai, fel rhan o fy rôl fel 'ysgolhaig ifanc' gyda CWM. Nid oedd disgwyl i mi gyflwyno fy ymchwil fy hun eleni, gan mai dyma oedd fy mhrofiad cyntaf gyda DARE. Ond cefais wahoddiad i fynychu'r gwahanol sesiynau ac ymgysylltu â'r ysgolheigion drwy gydol y digwyddiad, gan ystyried sut y gallai eu gwaith effeithio ar fy ngweinidogaeth fy hun a gwaith academaidd yma yng Nghymru, a sut y gallwn i gyfrannu at y fforwm yn y dyfodol.

Thema fforwm DARE eleni oedd 'Liberation Quest(ion)s' ac fe gafwyd chwe ffrwd. Fe'u dewiswyd yn benodol gan grŵp llywio DARE, oedd yn cynnwys ysgolheigion a diwinyddion o bob rhan o'r byd, fel 'materion hollbwysig i'n cyfnod presennol'. Y chwe ffrwd oedd: 1. Ecoleg ac Anthroposen; 2. Economi ac Adeiladu Heddwch; 3. Datblygiad a Threfedigaeth; 4. Defodau a Seremonïau; 5. Caethwasiaeth a Gwneud Disgyblion; 6. Diwinydda mewn Oes o Argyfyngau.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn o'r cyfle hwn, yn arbennig o ran fy mhrosiect ymchwil fy hun ar y cyd-destun Cymreig. Ynddo rwyf yn ceisio deall sut mae cynulleidfaoedd lleol yng Nghymru yn dirnad ac yn gweithredu cenhadaeth achubol Duw yng ngoleuni heriau seciwlareiddio ac argyfyngau gwleidyddol parhaus. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio a gefais ac yn edrych ymlaen at weld sut y gallai'r gwaith hwn effeithio ar y cyd-destun Cymreig drwy annog a hybu ein cynulleidfaoedd ffyddlon i fod â rhan yng nghenhadaeth achubol y Duw sy'n dri yn un.

Os hoffech chi ddarganfod mwy am waith CWM neu fforwm DARE, edrychwch ar eu gwefan www.cwmission.org neu dilynwch eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae rhestr o'u cyhoeddiadau, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o DARE, hefyd ar gael yn www.cwmission.org/resources/Publications

Os ydych chi'n ysgolhaig sy'n gweithio ym meysydd diwinyddiaeth gyhoeddus, ymarferol neu wleidyddol, efallai y gallech chi ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer fforwm DARE y flwyddyn nesaf pan fydd y thema a'r 'alwad am bapurau' yn cael eu cyhoeddi.

*Corey Hampton*
*Yr Wyddgrug*


# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 3

Dosbarth Beiblaidd ac Ysgol Sul Luc 4:14–30 | 15 Hydref




### Gweddi

Arglwydd Dduw, ceisiwn dy fendith wrth i ni fyfyrio ar werth y Beibl a phwysigrwydd ei ddarllen. Gwyddom na allwn ymroi i'r Efengyl ymarferol heb ein bod wedi ymwreiddio yn y gwaith sylfaenol. Yn ystod ein myfyrdod heddiw, gofynnwn am dy gymorth i ddeall hyn. Amen.

### Darlleniad: Luc 4:14–30

### Cyflwyniad

Mae Mathew, Marc a Luc yn rhoi sylw i'r hanes am Iesu yn dychwelyd i Nasareth, a phawb wedi clywed amdano. Lledodd yr hanes am y pregethwr ifanc hwn a siaradai 'megis un ac awdurdod ganddo' ac a lwyddodd i wneud daioni. Byddent yn hapus i uniaethu â'i boblogrwydd a'i lwyddiant. Wedi'r cyfan, roedd yn un o'u cymuned ac wedi gwneud enw da iddo'i hun. Tybiai'r gynulleidfa eu bod yn tystio i fachgen a fyddai'n codi i fod yn enwog ymhlith yr Iddewon ac yn dwyn enw Nasareth i sylw arweinwyr y drefn Iddewig. Ystyrient eu bod yn hyddysg yn yr Ysgrythurau a'u bod yn gwrando ar bregethu ffres a pherthnasol Iesu.

Ond pan ddechreuodd Iesu ddangos nad oedd y drefn Iddewig wedi gwneud cyfiawnder â'r gweddwon a'r gwahangleifion, aeth y gynulleidfa yn anniddig. Roedd Iesu yn crwydro oddi ar lwybr y ddysgeidiaeth gyfforddus roeddent wedi arfer â hi. Roedd y pregethwr hwn yn herio'r drefn ac yn dangos ei gwendidau. Mae'r Ysgrythur o hyd fel drych yn dangos gwendid dyn a'i fodd o grefydda, ac yn ein herio a'n gwneud yn anniddig. Bydd eglwys sy'n chwilio am fodd o fyw'r ffydd angen dod i'r fan honno o weld rhyfeddod Duw a'i bwrpas, ynghyd â gweld dyn yn ei wendid a'i angen.

### Myfyrdod

Mae pob tröedigaeth a diwygiad yn cychwyn gyda'r dasg o ddarllen y Beibl yn weddigar a gofyn sut mae'r testun yn datguddio Duw ac yn siarad â dyn yn ei gyfnod a'i gyflwr. Byddwn yn cyfeirio at hanes Philip a'r eunuch mewn adran arall, ond daw argyhoeddiad i lawer wrth ddarllen yr Ysgrythur yn onest ac yn ystyrlon. Wrth i rywun arall daflu golau ar y testun, bydd yr ymholwr yn darganfod rhan o'r gwirionedd am Dduw ac amdano'i hun.

Pan na fydd pregethwr ar gael i bregethu, bydd y gynulleidfa leiaf yn medru cynorthwyo'i gilydd i agosáu at Dduw drwy ddarllen ychydig o adnodau a gofyn y cwestiynau sylfaenol hyn. Os bydd rhywun yno a fyddai wedi paratoi drwy ddarllen esboniad, gorau oll, ond mae rhywbeth effeithiol yn y cyd-ddarllen ac yna'r trafod. Ceir llawer o lyfrau i gynorthwyo'r grŵp bychan i fwynhau'r fendith o ddarllen y Beibl gyda'i gilydd. Efallai fod y syniad o ysgol Sul yn ddieithr i lawer heddiw, ond sut bynnag y byddwn yn cyfeirio at y gwaith o fyfyrio ar y Beibl, yr un yw'r cyffro o sylweddoli bod Duw yn siarad drwy'r sgwrsio ac yn argyhoeddi drwy'r cyfan.

### Gweddi


Diolch, Arglwydd, dy fod wedi ysgogi dy bobl dros gyfnod eang o hanes Israel i gofnodi profiadau pobl a dystiodd i ti. Diolch am y rhai a gadwodd y copïau a'u trosglwyddo i ieithoedd byd. Rhyfeddwn fel y bydd darllen a myfyrio ar yr hyn a ysgrifennwyd ganrifoedd yn ôl. Rhyfeddwn fod hyn wedi digwydd mewn ieithoedd dieithr i ni, a diwylliannau mor wahanol i Gymru, ond sy'n dal i gyfareddu'r darllenydd ac yn ffenestri i ni weld rhyfeddod dy ogoniant. Molwn dy enw. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Ceir esboniad hylaw ar Lyfr yr Actau â'r teitl *Men of Action*; oni fyddai'n werth ystyried y Beibl cyfan fel tystiolaeth o Dduw ar waith: y Duw gweithredol ac nid y Duw goddefol? A fyddech yn cytuno?
2. A oes perygl i ni eistedd yn ôl yng nghadair freichiau ein moethusrwydd wrth ddarllen y Beibl, yn hytrach nag ymegnïo mewn dillad gwaith?
3. Bydd trafodaeth yn ysgogi'r meddwl ac yn helpu pobl i ddeall unrhyw bwnc yn well. Pa un yw'r sefyllfa orau i drafod geiriau'r Beibl – oddi mewn neu oddi allan i adeilad yr eglwys?
4. Beth yw mantais ac anfantais iaith grefyddol wrth siarad am ein ffydd?
5. Dewiswch eich hoff ddameg, ac yna dychmygwch ei rhannu hi â pherson sydd heb fod yn gysylltiedig â theulu'r ffydd.

## Posteri Cristnogol Cymraeg Newydd

Mae cyfres o bosteri cyfoes a lliwgar bellach ar gael yn Gymraeg gan y Christian Poster Company yn Lerpwl. Mae modd eu harchebu ar lein, ac maent ar gael mewn nifer o feintiau gwahanol – o bosteri bychain A4 i faint enfawr A1, er mwyn eu gosod o flaen y capel neu i addurno wal y festri. Am fwy o fanylion am sut i archebu, ewch i: https://thechristianpostercompany.com/collections/welsh-language-christian-posters







S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 15 Hydref**
Dim rhaglen

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 15 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies

**Sul, 15 Hydref, am 12yp**
Oedfa dan ofal Tracy Jones, Bangor

# COFIO CYFAILL – Y PARCHEDIG TUDOR DAVIES (1923 – 2010)

Ganed y Parchg Tudor Davies gan mlynedd yn ôl ar 2 Ebrill, 1923. Braint i mi yw rhannu rhai atgofion personol amdano ar ganmlwyddiant ei eni. Yn dilyn ei ymddeoliad ym 1989 byddai'n troi i mewn yn gyson i oedfa'r hwyr i gyd-addoli gyda ni yn eglwys Seion, Aberystwyth. Cefais yr anrhydedd o gyflwyno teyrnged yn ei angladd a ninnau fel teulu wedi ei brofi'n gyfaill triw a charedig ac yn ymwelydd cyson â'n haelwyd. Cofiwn am Morfudd, ei briod annwyl. Ergyd enbyd oedd marwolaeth sydyn Morfudd tra roedd y ddau ar eu gwyliau ar ynys Malta. Go brin iddo ymweld â ni heb iddo sôn am Morfudd. Roedd ei sgwrs bob amser yn ddifyr. Soniai lawer am Wyddelwern ac am ei rieni, am ei dad yn marw'n ifanc a'i fam yn wraig weddw â thri o blant ieuanc i'w magu.

## Llenor coeth




Roedd Tudor yn llenor coeth, a gyfrannodd yn helaeth mewn ysgrifau a barddoniaeth i amryw gylchgronau Cymraeg, gan ennill lle iddo'i hun ymhlith emynwyr y Gymru gyfoes. Mae ei emynau yn drysorau bydd cenedlaethau o Gristnogion Cymru i'r dyfodol yn eu defnyddio i foli'r Arglwydd, ac yn eu defnyddio hefyd yn weddïau ar gyfer eu defosiwn personol.

Mae Tudor drwy ei emynau yn dwyn tystiolaeth i'r cariad a'r gras sydd yn Nuw ac at y gobaith sydd yn yr efengyl i fyd sydd ar chwâl.

Cyflawnder pob cyflawnder yw
dy gariad hael, sy'n ystyr byw;
mae grym dy groes a'th aberth drud
yn obaith cymod i'r holl fyd;
O achub ni, ryfeddol Un,
i fywyd newydd ar dy lun.

Roedd Tudor newydd orffen ysgrifennu llyfr yn ystod y misoedd olaf ei daith ddaearol yn cofnodi'r cefndir i'w emynau a'r hanesion sy'n gysylltiedig â hwy. Trwy gefnogaeth hael ei ferch Llinos a'i fab Gwyn, cyhoeddwyd y gyfrol, *Bara ein Bywyd,* gan Gymdeithas Emynau Cymru.

## Tystio i ofal Duw

Manteisiai Tudor ar bob cyfle i ddwyn tystiolaeth mewn gair a gweithred i'r efengyl. Hyd yn oed mewn gwendid a llesgedd corff yn yr ysbyty mynnai dystio i Dduw y Tad a'i ofal trosom. Ymgasglodd pedwar o feddygon o gylch ei wely yn Ysbyty Bronglais a dywedodd Tudor wrth y llawfeddyg fod ganddo anrheg iddo. Estynnodd amlen gydag emyn o'i waith – emyn sy'n offrymu diolchgarwch i Dduw am ysbytai ac yn gofyn am ei fendith ar y meddygon 'yn enw Crist a roddai i gleifion gynt iachâd.' Darllenodd y llawfeddyg, oedd wedi ei gyffwrdd gan weithred Tudor, yr emyn allan yn uchel o flaen pawb. Cafodd un o'r meddygon o gyfandir Asia ei lorio a'i effeithio'n fawr gan hyn i gyd, a diolchai am dystiolaeth Tudor i'w Arglwydd.

## Oedfa dawel

Ychydig dros wythnos cyn ei farw roedd Tudor yn aflonydd iawn ar ei wely cystudd yn Ward Meurig yn Ysbyty Bronglais ac roedd e'n gofyn yn barhaus am gael gweld gweinidog. Roedd ei weinidog yntau yn Eglwys Fethodistaidd Sant Paul ar ei wyliau a daeth Llinos, ei ferch, i gysylltiad â mi. Cawsom oedfa dawel a chysegredig yng nghwmni'n gilydd. Nid oes dwywaith am hynny. Wedi darllen salm a gweddïo roedd Tudor wedi tawelu fel pe buasai ton o dangnefedd wedi ei feddiannu. Drannoeth dywedodd y nyrs oedd yn gofalu am Tudor wrthyf ei bod hi wedi synnu at y modd yr oedd wedi ymdawelu ar ôl i mi fod gyda fe. Roedd Un mwy o lawer na fi wedi dod ato. Ceir emyn Saesneg gan Gordon Jensen sy'n dweud am Iesu, 'He's as close as the mention of his name'. Dim ond anadlu ei enw mewn gweddi a wnaethom a daeth Iesu atom a chyhoeddi ei dangnefedd. Bu'r oedfa honno yn dystiolaeth ar y ward oncoleg i fendithion y Duw byw – bendithion mae Duw yn eu harllwys ar bawb sy'n troi ato mewn ffydd ac ymddiriedaeth.

## Pwysigrwydd pregethu

Pregethu oedd yn mynd â bryd Tudor a sôn am bregethu y byddem gan amlaf ar ein haelwyd. Ei arwr mawr oedd y Parchedig D. Tecwyn Evans, un o dywysogion amlycaf pulpudau Cymru yn ei ddydd. Yn 2002 cyhoeddwyd cyfrol goffa i Tecwyn wedi ei hysgrifennu gan Tudor. Golygodd hynny saith mlynedd o lafur caled iddo. Mae'r gyfrol yn ddi-os yn gampwaith, yn gofnod hanesyddol ac yn ddarlun byw a theilwng o un o'r gwŷr enwocaf a gododd Wesleaeth Gymraeg.

Roedd Tudor yn sicr mai un arf anhepgorol y mae'r Ysbryd Glân yn ei ddefnyddio i ddwyn pobl i ffydd yw pregethu. Mae pregethu'n barhad o weithgarwch achubol Duw. Mewn gwir bregethu mae Duw yn cyfarfod â dyn.

Yn ei waeledd dywedodd wrthyf fi y byddai'n hoffi gwella digon i allu pregethu yn y capeli bach i'w cadw ar agor. 'Ac mae gen i destun,' meddai, 'Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob un sy'n credu.' (Rhufeiniaid 1:16) Yr Efengyl yw'r gallu dwyfol sy'n gweithredu, trwy ffydd, ym mywyd y credadun i'w achub o bŵer dinistriol pechod. Grym gras ydyw sy'n newid dyn, sy'n ei alluogi i anghofio ei hun er mwyn eraill, ac i droi'r rudd arall, i borthi gelyn newynog, a'n gwneud 'ni'n Samariaid o un fryd i helpu'r gwael yn hael o hyd.'

Mae'r grym dwyfol hwn yn gryfach nag unrhyw rym dynol a hyd yn oed yn gryfach nag angau ei hun.

Pregethodd Tudor ei bregeth gyntaf yn ddwy ar bymtheg oed yng nghapel Salem, Cynwyd ar 24ain Rhagfyr, 1940. Pregethodd ei bregeth olaf yng nghapel Sant Paul, Aberystwyth ar 22ain Mawrth, 2009. Ei destun oedd, 'Ac os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw'r hyn a bregethir gennym ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi.' (I Corinthiaid 15:14) Pregeth ar yr Atgyfodiad a gafwyd ganddo.

## Cysur, gobaith a gorfoledd

Yn y rhifyn o *O Ddydd i Ddydd* o'i eiddo mae'n dyfynnu'r geiriau yma o eiddo'r Arglwydd Iesu, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.' (Ioan 11:25,26) Dywed Tudor am y geiriau yma, 'Geiriau sy'n gysur a gobaith a gorfoledd i deulu galar ym mhob oes ... Mae'r Bywyd yng Nghrist yn fywyd na all y byd ei gynnwys na'r bedd ei gadw ... Mae'r Efengyl yn ffynhonnell cysur diderfyn.' Tystiolaeth Tudor i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist yn un o'i emynau yw,

Yn dy gwmni nid rhaid ofni'r
alwad o'r tu hwnt i'r llen;
porth fydd angau
i drigfannau nefoedd wen.

... am fod yr Arglwydd Iesu wedi offrymu ei fywyd glân a sanctaidd yn iawn drosom i'n cymodi â Duw.

Diolchaf am y fraint o gael ei adnabod fel cyfaill a brawd yn y weinidogaeth a dwyn atgofion amdano.

**Andrew Lenny**

# Barn Annibynnol

## Tymor Diolchgarwch



Mae'n dymor 'Diolchgarwch' yn ein gwlad, pwnc sy'n pegynnu a gwahaniaethu barn. Nid pawb sy'n credu yn Nuw'r Creawdwr. Prin fod plant ein hysgolion bellach, yr ysgolion uwchradd yn benodol, yn cael dysgu am y byd fel creadigaeth Duw. Ond os yw person yn grefyddol ai peidio, mae'n bwnc digon cynhwysol ac mae gwersi a heriau sy'n amrywio barn o ystyried y gwahanol themâu sy'n perthyn iddo.

Yn yr eglwysi byddwn yn cydnabod mai Duw sydd wedi creu'r byd a dynoliaeth. Mae llyfr Genesis yn datgan bod yr hyn a greodd Duw yn dda, ac yn sicr mae lle a dyled gan bawb i werthfawrogi'r daioni sy'n perthyn i'r byd, y dirgelwch sy'n perthyn i'w ryfeddodau, mai gwaith y gwyddonydd yw ceisio deall ei gyfrinachau, ac mae ein cyfrifoldeb fel dynoliaeth yw bod yn stiwardiaid da wrth ofalu am a gwarchod y byd y mae Duw wedi ei ymddiried i'n gofal. Er bod llawer yn dywyllwch mewn bywyd, yn bennaf efallai oherwydd gwaith dyn yn ei drachwant yn ecsploetio a llygru'r cread, eto dywed llyfr Gensesis mai Duw fel awdur goleuni. Heb oleuni ni fyddai bywyd yn perthyn i'r byd naturiol. Felly ar adeg tymor diolchgarwch, wrth ddiolch am fendithion y cynhaeaf a'r cread, onid yw'n rhesymol ein bod fel dynoliaeth yn gweld ein perthynas â goleuni Duw, awdur a rhoddwr bywyd?

### Rhod y tymhorau

Yn ogystal â diolch am fyd sydd yn llawn harddwch a chyfoeth naturiol rydym yn gorfod symud gyda'r tymhorau, gan ryfeddu at gysondeb pob tymor yn ei dro. Mae geiriau Genesis yn llawn gwirionedd - 'Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos.' Ac mewn oedfaon diolchgarwch rhown sylw helaeth i farddoniaeth ac emynau sy'n canmol Duw am yr amrywiaeth rhyfeddol sy'n perthyn i fyd y tymhorau. Ond mae tywydd eithafol sy'n gymysgwch o haul crasboeth, sychdwr difrifol a glaw llifeiriol mewn mannau, wrth i dymheredd y ddaear godi, yn drysu'r tymhorau. Os yw hyn yn ganlyniad cynhesu byd eang, mae'n sialens i bawb i feddwl am leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a'r angen i gynhyrchu ynni gwyrdd, bod yn barod i ailgylchu fwy a bod yn llai gwastraffus yn ein defnydd o adnoddau'r cread.

### Hau a medi

Mae hau a medi gan feddwl am waith yr amaethwyr a'r garddwyr yn gofalu am gynnych y ddaear yn thema boblogaidd adeg diolchgarwch ac mae gwersi mewn doethineb i'w dysgu drwy'r gymhariaeth. Mae gan yr Apostol Paul lawer i ddweud am y frwydr yn erbyn dylanwad drygioni mewn cymdeithas - a ydym yn gadael ein hunain yn agored i ddylanwadau da ynteu ddylanwadau drwg? Yn ei lythyr at y Galatiaid, ar ôl sôn yn helaeth am weithredodd y cnawd a ffrwyth yr Ysbryd, mae'n rhybuddio - 'bydd y sawl sy'n hau i'w gnawd ei hun yn medi o'i gnawd lygredigaeth, a'r sawl sy'n hau i'r Ysbryd yn medi o'r Ysbryd fywyd tragwyddol.' Rwy'n hoff o'r gerdd 'Calon Dyn' o waith y ddiweddar Alice Evans, Henllan Amgoed. Mae'r gerdd yn agor gyda'r geiriau, 'Gardd i'w thrysori yw calon dyn: pwy yw y garddwr? Y dyn ei hun'. Yna wedi rhoi sylw i ddylanwadau hadau da a hadau drwg, mae'n ein siarsio i ddewis rhyngddynt ac yn cloi'r gerdd gyda'r llinellau 'Os heuwn had Duw, bydd pob cornel yn hardd, a blodau, nid chwyn, fydd yn llenwi ein gardd.' Mae'r Apostol yn ein hannog 'Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo.'

### Rhannu a bod yn hael

Adeg diolchgarwch rydym yn diolch a bendithio Duw am gyfoeth y ddaear sy'n ein diwallu â llawnder a digonedd i'n cynnal. Fel meddai'r Salmydd - 'rhoes y ddaear ei chnwd, Duw, ein Duw ni a'n bendithiodd.' 'Yr wyt yn coroni'r flwyddyn a'th ddaioni, ac mae dy lwybrau yn diferu gan fraster.' Rhybuddia Iesu ni i ofalu rhag bod yn hunanol a thrachwantus, ac wrth gofio am yr angen i dosturio a rhannu gyda'r tlawd a'r anghenus mae'r Apostol Paul yn ei Ail Lythyr at y Corinthiaid yn ein hannog i rannu'n hael. 'Cofiwch hyn,' meddai, 'a heuo'n brin a fed yn brin, a heuo'n hael a fed yn hael.' Wrth gofio am angen mawr pobl mynyddoedd yr Atlas ym Moroco wedi'r ddaeargryn, a thrueni a thristwch pobl Lybia a dinas Derna yng nghysgod y llifogydd ofnadwy, dewch i ni wrth dosturio, roi yn hael er eu lles.

### Byd diwylliant a llên

Nid dim ond diolch am fendithion y cynhaeaf a wnawn ar yr adeg yma ond am holl brysurdeb ein bywydau, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, gan ddiolch am fwrlwm y sioeau amaethyddol a'r gwyliau megis yr Eisteddfodau cenedlaethol. Rhoddodd yr haf gyfle hefyd i mi ddarllen, ac wrth feddwl am rybudd Iesu am beryglon chwennych bod yn gyfoethog, fe fedraf ddeall Iesu pan ddywedodd 'Mor anodd yw hi i'r rhai goludog fynd i mewn i deyrnas Dduw!' yn arbennig wedi darllen nofelau hanesyddol eu cefndir megis *Drws Du yn Nhonypandy* gan Myrddin ap Dafydd a *Y Castell Siwgr* gan Angharad Tomos. Nid agweddau i'w mawrhau ydoedd trachwant meistri y gweithiau dur a glo, yn amddifadu gweithwyr a theuluoedd o gyflogau teg, a pherchnogion y planhigfeydd siwgr yn Jamaica a'r Caribî, yn perchnogi a cham-drin caethweision, megis y gwnaeth yr Arglwydd Penrhyn wnaeth ormesu a cham-drin mor greulon y caethweision yn ei blanhigfeydd a gweision yn ei gastell ger Bangor. Diolch am nofelau fel hyn sy'n ein hatgoffa o'r angen i ddiwygio'n barhaus yn wyneb anghyfiawnder a gwahaniaethu hiliol. Os cewch gyfle mynnwch eu darllen ac fe gewch chithau wrth feddwl am ymddygiad trahaus y cyfoethogion yn eu dydd ryfeddu ac arswydo.

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# CYFRANIADAU HAEL CAPEL MAIR



Gweinidog Capel Mair, Aberteifi, y Parchg Irfon Roberts, a swyddogion yr eglwys yn cyflwyno cyfanswm o £900, sef rhoddion o £225 yr un i bedair elusen: Banc Bwyd Aberteifi, Clefyd Parkinson's, Cartref Nyrsio Glyn Nest (Castellnewydd Emlyn), a Chronfa Lymphoma Leukaemia Myeloma Ysbyty Singleton. Elw yw'r arian o gasgliad rhydd yr eglwys yn ystod 2022.


Cyfansoddwyd y penillion canlynol gan Ken Griffiths, Y Graig:

Ni fedrwn atal stormydd
Na throi y dŵr yn win,
Na rhodio dros y tonnau
Yng nghysgod Mab y Dyn.

Ond medrwn wella'r cleifion
A rhoddi siawns i fyw
Drwy noddi dwylo meddyg
A'u rhoi yn nwylo Duw.




# TECS YN Y PULPUD



Y Parchg Tecwyn Ifan yn llenwi'r pulpud gyda'r Gair a'r gitâr yn y Priordy, Caerfyrddin mewn Cwrdd Diolchgarwch yn ddiweddar.

# TLODION EIN GWLAD

**Dyma rhan o erthygl o 'Wales Matters'. Hanes un plentyn allan o'r chwarter o blant Cymru sy'n byw mewn tlodi.**

'Mae Mam yn crio drwy'r amser am nad oes ganddi arian. Rwy'n teimlo'n isel iawn. Ni allaf ddweud wrthi fy mod yn llwglyd oherwydd bydd hi'n crio mwy. Mae tyllau yn fy sgidiau ysgol a rhaid i mi wneud yn siŵr nad oes neb yn eu gweld pan dwi'n eistedd wrth fy nesg.'

### A merch ddigartref

Nid yw tlodi yn rhywbeth o ddegawdau yn ôl nac mewn gwlad bell. Yn y Senedd, fe adroddodd Mabon ap Gwynfor AS am ganfod ferch ddigartref yn cysgu wrth ddrws ei fflat yng Nghaerdydd. Cafodd ei chamdrin gan ei rhieni, a'i magu mewn gofal. Bu ar y stryd ers yn 16 oed.

'Mae ei geiriau wedi glynu wrthyf,' meddai Mabon. 'Ers ei geni cafodd ei gadael i lawr gan wleidyddion sydd wedi methu creu strwythurau i atal y pethau hyn rhag digwydd iddi.'

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*